# THOMAS, Syr OWEN (1858 - 1923), awdurdod ar ffermio, brigadydd, aelod seneddol

**Enw:** Owen Thomas
**Dyddiad geni:** 1858
**Dyddiad marw:** 1923
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** awdurdod ar ffermio, brigadydd, aelod seneddol
**Maes gweithgaredd:** Milwrol; Natur ac Amaethyddiaeth; Gwleidyddiaeth a Mudiadau Gwleidyddol
**Awdur:** Thomas Richards

Ganwyd 18 Rhagfyr 1858, yng Ngharrog, sir Fôn, o dras pregethwyr a diaconiaid Annibynnol, a daliodd yntau'n Annibynnwr selog drwy gydol ei oes. Cafodd ei addysg gynnar yn y Liverpool College. Yn fuan canolbwyntiodd ei ddiddordeb ar ffermio, gan ennill amryw wobrwyon mewn arddangosfeydd ym Môn a thu allan iddi; yn ddiweddarach, bu'n oruchwyliwr ar stadau Plas Coch a'r Brynddu; o 1893-7 bu'n aelod o Gomisiwn brenhinol ar y dirwasgiad amaethyddol, yr unig gynrychiolydd o Gymru arno (ar wahân i'r Arglwydd Rendel). Yr oedd yn amlwg iawn hefyd ym mywyd cyhoeddus sir Fôn; aelod o'r cyngor sir, henadur, ynad heddwch, dirprwy raglaw, ac uchel sirydd yn 1893. Yr oedd ar ymweliad â De Affrig pan dorrodd y rhyfel â'r Boeriaid allan yn 1899; gwnaed ef yn gyrnol, a chododd y Prince of Wales Light Horse, dod yn llywydd arnynt, ac ymladd (meddir) gant o frwydrau. Drwy'r rhyfel, ac ar ôl ei diwedd, talodd lawer o sylw i dir De Affrig a'r modd gorau i'w ddatblygu, sail y llyfr a gyhoeddodd (Llundain, 1904) dan y teitl *Agricultural and Pastoral Prospects of South Africa*, cyfrol o 335 td. Yn union wedi i'r Rhyfel Mawr dorri allan yn 1914 gwnaed ef yn frigadydd, i fod yn gyfrifol am ddisgyblu'r lluoedd bechgyn ieuainc o ogledd Cymru a restrodd yn y fyddin. Penodiad delfrydol ymron, pan gofier am ei ddiddordeb gynt yn Volunteers sir Fôn, ei yrfa lachar yn yr Affrig gyda'r Light Horse, a'r ffaith ei fod yn Gymro reiol o ran iaith a theimlad, hawdd dod ato, y natur ddynol ar ei gorau. Bu'n llwyddiant mawr, er i broblemau astrus o ddisgyblaeth godi eu pennau yn awr ac yn y man a chael hwyl o wynt yn y papurau newyddion. Urddwyd ef yn farchog yn 1917. Bu iddo bob amser ddiddordeb mawr mewn gwleidyddiaeth - awgrymwyd ei enw yn 1894 fel ymgeisydd dros Fôn ar ran y Rhyddfrydwyr - ac yn Rhagfyr 1918, wele ef yn ymgeisydd Llafur, ac er syndod i'r Rhyddfrydwyr uniongred, enillodd y sedd oddiar yr hen aelod a fu'n cynrychioli'r sir er 1895 (E. J. Ellis-Griffith). Yn 1919-1920 yr oedd yn aelod o'r Comisiwn (gyda'r Arglwydd Milner yn ben iddo) a anfonwyd i'r Aifft i gyfleu adroddiad ar sefyllfa adfydus y wlad honno. Yn 1922 daeth allan fel ymgeisydd annibynnol dros Fôn, ac unwaith eto fe enillodd y dydd yn erbyn y Rhyddfrydwyr. Bu farw ar 6 Mawrth 1923, a'i gladdu yn Llanfechell ar y nawfed. Collodd dri o'i feibion yn y Rhyfel Mawr cyntaf.

## Awdur

**Thomas Richards**, (1878 - 1962)

## Ffynonellau


J. E. Griffith : *Pedigrees of Anglesey and Carnarvonshire Families* (1914), 399

*Hanes Eglwysi Annibynnol Cymru*, ii, 483-7, v, 233-4

*Journal of the Royal Agricultural Society*, Third Series, vii 131 viii, 516-22

*Who's who in Wales*, 1921

*Y Genedl*, 13 Mawrth 1923

*Y Dysgedydd*, 1923, 277-81


## Darllen Pellach

Erthygl Wicipedia: Owen Thomas

## Dolenni Ychwanegol

VIAF: 185411233

Wikidata: Q19605143


**Dyddiad cyhoeddi:** 1970



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu